# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD Y BWRDD GWEITHREDOL DROS DIOGELU'R CYHOEDD

**DYDD** Llun, 13 Mai 2019

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** P.M. Hughes (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
P. Morris, Rheolwyr Gorfodaeth Amglycheddol
E. Jones, Swyddog Gorfodaeth Amglycheddol
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Ystafell Gyfarfod Adfywio, Neuadd y Sir, Caerfyddin, SA31 1JP. - 2.00 - 2.15 yp

**1. DATGANIADAU O FUDDIANT**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**2. DIWYGIAD I'R DDYLETSWYDD GOFAL AR BRESWYLWYR**

Ystyriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg o'r rheswm dros gymeradwyo galluogi Swyddogion Amgylcheddol i roi cosb benodedig am droseddau yn ymwneud â dyletswydd gofal gwastraff cartrefi yn hytrach nag erlyn troseddwyr drwy'r llys.

Mae troseddau dyletswydd gofal yn ymwneud â phreswylwyr nad ydynt yn cael gwared ar eu gwastraff yn gywir ac nid yw'n berthnasol lle caiff gwastraff ei gasglu gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Nodwyd bod y gallu i roi tocyn cosb benodedig yn welliant o dan Adran 34(2A) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Y dirwyon Hysbysiad Cosb Benodedig a gynigiwyd ar gyfer torri'r ddyletswydd gofal sydd ar breswylwyr oedd £300 a chynigiwyd taliad cynnar o £150 pe bai'n cael ei dalu o fewn 10 diwrnod. Pennwyd y symiau a nodwyd yn dilyn argymhellion gan Lywodraeth Cymru i gael dull cyson o weithredu ledled Cymru.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r newid i'r hysbysiad cosb benodedig mewn perthynas â'r ddyletswydd gofal sydd ar breswylwyr.**

**3. LLOFNODI BOD COFNOD PENDERYNIADAU'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 18FED IONAWR, 2019 YN GOFNOD CYWIR**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnod penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2019 yn gofnod cywir.**

____________________________ ________________

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**